Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3177

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

RHAN 12

CYMORTH AT GYRSIAU RHAN-AMSER

Talu grantiau ar gyfer ffioedd mewn perthynas â chyrsiau rhan-amser dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Medi 2014

119.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r grant mewn perthynas â ffioedd y mae gan y myfyriwr rhan-amser cymwys hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs rhan-amser dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Medi 2014 i'r awdurdod academaidd priodol ar ôl i gais mewn ysgrifen am daliad ddod i law, a ystyrir yn gais dilys gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau o dan baragraff (1) ar unrhyw adegau ac mewn unrhyw randaliadau (os bydd rhandaliadau) yr ystyriant yn briodol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau dros dro o dan baragraff (1) mewn unrhyw achosion yr ystyriant yn briodol.